

www.womansarchivewales.org

Eisteddfod Genedlaethol 2016

Roedd darlith AMC yn yr Eisteddfod eleni yn llawn o'r mynychwyr arferol ynghyd ag wynebaw newydd o bob rhan o Gymru ac o fro'r Fenni ei hun. Y thema oedd 'Y Swffragetiaid, y Steddfod a Mwy ...' a'r darlithwyr oedd Dr Ryland Wallace a Dr Elin Jones. Cafwyd ymateb brwdfrydig i ddarlith ddysgedig a ffraeth Ryland. Soniodd sut y bu Eisteddfod Genedlaethol 1912 a gynhaliwyd yn Wrecsam yn darged i wrthdystiadau'r Swffragetiaid, ac fel y'u cyfeiriwyd at Lloyd George yn benodol. Ond nid oedd trefnwyr Eisteddfod 1913, y ddiweddaraf i'w chynnal yn Y Fenni, yn mynd i gael eu dal, ac amddiffynnwyd y Pafiliwn â ffensys ac â chi gwarchod.

Yna, cafwyd darlith fywiog a chynhwysfawr, yn seiliedig ar ymchwil a llyfr gan yr Athro Angela John, gan Elin Jones am Margaret Haig Thomas, Arglwyddes Rhondda, gwraig fusnes a Swffragét o fri. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dr Siân Rhiannon Williams. Roedd y babell dan ei sang, ac roedd hi'n ddiwrnod braff. (gweler ar y dde).



Menywod yn y Bywgraffiadur Cymreig

Mae bywgraffiadau cenedlaethol yn fodd i lunio cenedl trwy greu ei chof a chofnodi bywydau'r bobl hynny sydd wedi ei ffurfio. Felly, mae'r rhai a gynhwysir yn y storfa a'r adnodd hwn yn bwysig iawn. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y Bywgraffiadur Cymreig, a lansiwyd yn 1937 ac y mae'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gyfrifol amdano ers Ionawr 2014. Er nad yw ystadegau'r Bywgraffiadur yn ymddangos ddim gwaeth na rhai'r rhan fwyaf o fywgraffiadau cenedlaethol eraill, rhaid cydnabod hyd yn oed yn 2016, mai dim ond rhyw 10% o'r awduron a gyfrannodd gofnodion i'r Bywgraffiadur sy'n fenywod. Dim ond 5% o'r cofnodion yn y cynnwys a gyhoeddwyd rhwng 1937 a 1971 oedd am fenywod, ac mae'r rhain yn dal dan 10%. Nid yr ystadegau sydd angen eu hadolygu yn unig. Mae rhai o'r cofnodion cynnar, megis yr un am Betsi Cadwaladr, yn perthyn i'w cyfnod ac mae taer angen eu hadolygu. Nid yw menywod eraill, fel y ddiwydianwraig arloesol a'r nofelydd ffeminyddol, Amy Dillwyn, yno o gwbl. Mae eraill, fel y noddwraig ddiwylliannol ddylanwadol yr Arglwyddes Augusta Hall (Arglwyddes Llanofwr), wedi eu cuddio dan gofnodion am eu gwŷr neu eu tadau.

Fel Golygydd Cynorthwyol y Bywgraffiadur, rwyf i eisiau sicrhau cynrychiolaeth decach o fenywod yn ein bywgraffiadur cenedlaethol, ac rydym wrthi'n ceisio gwella pethau. Ers 2014, rydym wedi ychwanegu 25 menyw at dudalen y Bywgraffiadur ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn eu plith, yr Eifftolegydd Kate Bosse-Griffiths, y gwleidydd Val Feld, ac un o'n hawduron enwocaf, Kate Roberts. Ei chofnod hi yw un o'r cyntaf yn y Bywgraffiadur i gynnwys delweddau, diolch i'n Golygydd Digidol, Morfudd Nia Jones a gwelliannau ym maes technoleg. Rydym wedi comisiynu cofnodion am 15 o fenywod eraill ar y rhestr 1971-2013, yn eu plith Laura Ashley, yr artist Brenda Chamberlain, y nofelydd Menna Gallie, yr amgylcheddwraig Cecily Williams-Ellis a'r fathemategydd Mary Warner. Wrth ystyried adolygu hen gynnwys, rwy'n falch i adrodd y bydd Amy Dillwyn yn hawlio'i lle cyn bo hir, a phwy well i gyfrannu ei chofnod na Kirsti Bohata. Yn ddiweddar, diweddarodd Angela John gofnod yr Arglwyddes Charlotte Guest gan ddod â hi i fyny i'r unfed ganrif ar hugain, ac mae Arglwyddes Llanofwr bellach wedi ymadael â chofnod ei gwŷr Benjamin, a'r erthygl amdani wedi ei diweddarau'n drylwyr. Mae menywod Cymru yn dod allan o'r cysgodion!

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith ein bod yn ceisio adolygu popeth sydd wedi ei ysgrifennu ers 1937 a chomisiynu, golygu a chreu cofnodion newydd, mae ein tasg yn un heriol iawn, a gofynnwn am eich cymorth chi. Gan ein bod yn ymwybodol iawn o'r bylchau yn ein gwybodaeth, mae angen cyfranwyr arnom i ysgrifennu cofnodion am fenywod 1971-2013 sy'n haeddu eu lle yn ein Bywgraffiadur. Mae angen awduron arnom hefyd sy'n fodlon adolygu cofnodion sy'n adlewyrchu agweddau hen ffasiwn ac sydd weithiau'n sarhaus. Yn olaf, ond

nid yn lleiaf, er mwyn codi canran y cyfranwyr benywaidd i'n bywgraffiadur cenedlaethol, mae angen menywod arnom i ysgrifennu cofnodon am y menywod a'r dynion a luniodd ein hanes cenedlaethol.

Gofynnaf i chi felly oedi munud i edrych trwy dudalen y Bywgraffiadur ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru a gweld a ellwch ddarganfod y menywod sy'n eich diddori chi, ac a ydych yn hoffi'r hyn y darllenwch amdanynt. Os nad ydych, pan na chynigiwch chi ysgrifennu neu adolygu cofnod? Isod gwelir y rhestr ddiweddaraf o'r menywod y mae angen cofnodion amdanynt ar frys. Bydd rhestr lawn o'r cofnodion a gomisiynwyd ac a gynhwyswyd yn ddiweddar ar gael ar wefan Archif Menywod Cymru yn fuan. Cymerwch gip arni ac anfonwch e-bost ataf: marion.loeffler@cymru.ac.uk <<mailto:marion.loeffler@cymru.ac.uk>>

Marion Löffler

Aberystwyth

<http://yba.llgc.org.uk/en/index.html>



Gwelir y rhestr lawn o enwau'n chwilio am awdur ar dudalen ymchwil gwefan Archif Menywod Cymru <http://www.womensarchivewales.org/research.html>. Yn eu plith gweler:

Eileen Beasley (2012, ymgyrchydd dros y Gymraeg), Gwen Ffrangcon-Davies (1891-1992, actor), Marged Lloyd Jones (2009, nofelydd a llywydd Merched y Wawr), Elaine Morgan (1920-2013, awdur), Annie Powell (1986, Maer Comiwnyddol y Rhondda), Rosalind Rusbridge (1915-2004, athrawes, awdur a heddychwraig), a Sarah Minwel Tibbott (1998, awdur a churadur yn Sain Ffagan).

Ffatri Vox

Mae Lleisiau o Lawr y Ffatri yn dal i ddatblygu! Clywyd perfformiad cyntaf gwaith newydd Inge Thomson, Ffatri Vox, yn y *Festival of Voice / Gŵyl y Llais yng Nghaerdydd*, ar Fehefin 10^{fed}.

Dyma ran o adolygiad o'r perfformiad hwn gan Cath Barton, sy'n gantores ei hun, ar gyfer y *Wales Art Review*:

'Yn ail hanner y gyngerdd, ymunodd y gantores Julie Murphy o'r grŵp gwerin Cymreig, Fern Hill a'r cerddor seiliedig yn Brighton, Tom Cook ar y gitâr ag Inge Thomson a Filfield ar y llwyfan ar gyfer y gwaith comisiwn *Ffatri Vox*. Yn hwn mae Inge Thomson wedi ymgorffori ac adeiladu ar ddyfyniadau o'r Lleisiau o Lawr y Ffatri eponymaidd, recordiadau o fenywod yn siarad am eu profiadau yn gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru rhwng 1945 ac 1975, a gasglwyd gan Archif Menywod Cymru. Cynhwysir darnau o'r sgyrsiau fel y maent, cânt eu troi yn ganeuon Cymraeg a Saesneg, ac fel yng ngwaith arall Thomson, cyfoethogir hwy trwy'r defnydd o electroneg gan yr holl berfformwyr. Roedd rhai o'r darnau a ddefnyddiwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â synau - y synau a olygai fod y menywod mewn ffatrioedd yn gorfod dysgu darllen gwefusau, er enghraifft.

Roedd y cyfuniad o leisiau Thomson a Murphy yn gyfoethog ac roedd y darn yn drwm o ffeithiau hanesyddol diddorol. Roedd sŵn gwydr yn torri yn rhagflaenu menyw yn siarad am weithwyr yn ffatri Corona yn y Rhondda yn gwisgo clociau i'w hamddiffyn rhag poteli gwydr wedi torri. Ac roedd y synau hyn yn cynhyrchu synau eraill yn y darn, gyda Julie Murphy yn canu yn Gymraeg am adnabod menywod ar strydoedd y Rhondda oddi wrth sŵn eu clociau.

Roedd hwn yn berfformiad llawn hyfrydwch ac yn arwyddbost i eraill i ddod, rhai ohonynt yn cysylltu â lleisiau ymhell tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliwn. Magwyd fi i sain y dyn Corona yn galw, ond wyddwn i ddim bod y poteli gwydr hynny yn dod o Gymru.. Bu'n agoriad llygad i mi fynd i wefan Lleisiau o Lawr y Ffatri a darllen rhagor am brofiadau rhai o'r menywod a weithiai yno bryd hynny'

Diolch yn fawr i Cath am ganiatáu i ni ddefnyddio'r detholiad hwn. Gellwch ddarllen yr adolygiad cyfan ar:

<http://www.walesartsreview.org/festival-of-voice-inge-thomson/>

A rhagor o newyddion am y Lleisiau ...

Catrin Edwards, cynhyrchydd, cyfarwyddwr, gwneuthurwr rhaglenni dogfen a chyfansoddwraig dalentog oedd Swyddog Maes y prosiect Lleisiau yn ne Cymru. Mae hi newydd ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid i ysgrifennu a chyfansoddi sioe gerdd yn seiliedig ar Leisiau o Lawr y Ffatri. Cadwch lygad barcud am ragor o hanes y prosiect hwn. Llongyfarchiadau calonnog Catrin.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr, yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan bob aelod. Ebstiwrch: caroline.fairclough@yahoo.co.uk.
Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Dydd Gwener 18^{fed} Tachwedd. Cysyllter â hi am gopi print bras hefyd.
Golygwyd y rhifyn hwn gan Caroline Fairclough ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.

19eg CYNHADLEDD FLYNYDDOL AMC/WAW

Cynhelir ein Cynhadledd eleni ym Mangor, ar yr 8^{fed} a'r 9^{fed} Hydref, yn Ystafelloedd Cledwyn, Teras, Prifysgol Bangor.

Mae'r pynciau a drafodir gan y siaradwyr yn eang – o'r cyfnod canoloesol cynnar hyd at ganol yr ugeinfed ganrif, a cheir papurau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd cyfieithu ar y pryd ar gyfer y papurau Cymraeg.

Cynhelir Cinio'r Gynhadledd ym Mwyty Lolfa Teras, a bydd Te Prynhawn ar y Sadwrn i lansio gwefan Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (prosiect CTL) <http://www.menywodarhyfel.cymru> <http://www.womenandwar.wales> yn swyddogol. Ymunwch â ni am banded a chacennau cri, ac eglurhad ar ddyfodol y prosiect.

Ceir rhaglen lawn a manylion archebu lle ar <http://www.womensarchivewales.org/events.html>

Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf – Datrys dirgelwch Ethel Thomas

Mae un o'n haelodau newydd wedi helpu i ddatrys dirgelwch a fu'n poeni swyddogion prosiect 'Menywod yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf: y profiad Cymreig' ers amser. Efallai eich bod yn cofio erthygl yng Nghylchlythyr Medi 2014 lle soniwyd am y garreg fedd yng Nghladdfa Dan-y-graig, Abertawe, yn cofnodi enw Ethel Thomas ac yn awgrymu iddi farw 'on active service' ym Mesopotamia ym mis Rhagfyr 1917? At hyn, roedd y dyfyniad ar waelod y garreg yn dramgwyddus braidd ac yn nodi 'Greater love hath no man ...'. Bellach, er hynny, trwy ymchwil gofalus Diana Morgan o Abertawe darganfuwyd nad carreg i Ethel mo hon o gwbl ond er cof am ei gŵr, Thomas Rhys Thomas, a fu farw o dwymyn ym Mesopotamia bell. Bu Diana'n chwilota yng ngwefan Papurau Newydd ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yno y cafodd hyd i'r wybodaeth hon. Druan ag Ethel - fe'i gadawyd yn weddw 25 mlwydd oed, Felly, yn anffodus bu'n rhaid dileu ei henw o'n gwefan gan ei dychwelyd i ddinodedd unwaith eto. Dyma'n union y math ar ymchwil sydd o fudd i'r prosiect. Mae gennym dros 200 o enwau menywod fu'n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf o bob rhan o Gymru bellach ond sgerbwd o wybodaeth am gynifer ohonynt. Byddem yn ddiolchgar dros ben am gyfraniadau tebyg gan ein haelodau. Diolch Diana a chroeso i Archif Menywod Cymru. Catrin Stevens

Nodi bywydau menywod 1914 – 1919

Rydym yn gobeithio sicrhau cymorth aelodau'r Archif ar gyfer seremonïau coffáu Cymru-gyfan yn ystod mis Tachwedd. Mae hyn yn rhan o'r prosiect: Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r bwriad yw tynnu sylw at gyfraniad menywod yn ystod y Rhyfel. Gobeithiwn gofio menywod penodol a gosod blodau ar eu beddau a'u cofebau yn Abertawe, (de-orllewin Cymru), Casnewydd (y de-ddwyrain); Bodolwyddan (gogledd-ddwyrain) a Chaerdybi (gogledd-orllewin). Mae'r cynlluniau yn dal i gael eu trafod ond bydd y pedwar coffad yn digwydd ar yr un pryd a'r un dyddiad penodedig rhwng Tachwedd 1af a'r 18fed, 2016.

Bydd gwybodaeth bellach ar gael cyn hir: os oes gennych gwestiynau neu awgrymiadau cysylltwch â Catrin Stevens os gwelwch yn dda: catrinstevens@outlook.com.

Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Ton-du, Penybont-ar-Ogwr

Ysgol Gynradd Ton-du, Penybont-ar-Ogwr oedd enillwyr haeddiannol iawn gwobr Archif Menywod Cymru yng nghystadleuaeth flynyddol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig eleni. Cymerodd y Seremoni Wobrwy le yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe, ar Orffennaf 8fed. Cyflwynodd y disgyblion brosiect am 'Ein Menywod Lleol' ac roeddent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o fywydau menywod dosbarth gweithiol eu hardal cyn yr Ail Ryfel Byd ac o rolau menywod yn ystod y rhyfel hwnnw. Cynhwysodd y disgyblion eu cymuned yn eu prosiect trwy gyfwrdd aelodau'u teulu, pensynwyr lleol ac aelodau'r gymdeithas hanes leol. Cymeron nhw ran hefyd ym 'Mis Hanes Menywod'. Roedd hi'n braf gweld bod mwy o'r prosiectau yn cynnwys agweddau ar hanes menywod eleni. Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn hynod ddiolchgar i AMC am gefnogi'r gystadleuaeth hon mor hael.



Cynrychiolwyr o Ysgol Gynradd Ton-du yn derbyn gwobr £300 Archif Menywod Cymru gan y Cadeirydd, Jenny Sabine a'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd, noddwr yr Eisteddfod gyntaf.

Dau adolygiad o lyfrau gan aelodau, ac o un sydd ar y gweill!

Swansea's 'Bad Girls': Crime and Prostitution 1870s-1914, gan Elizabeth F. Belcham.


ISBN 978-0-95775974-2-6, £20.

Mae hwn yn gofnod meddylgar, cydymdeimladwy ac wedi'i ymchwilio'n dda o fywydau merched a menywod a drigai yn rhannau tlotaf Abertawe ar droad y ganrif ddiwethaf. I'r menywod hyn dim ond trwy buteinio a mân-droseddu y gallent oroesi – yn dra gwahanol i'r dynion a'r ychydig fenywod a drafodir yn y rhan fwyaf o'r llyfrau am hanes Abertawe. Mae'r dadansoddiad darllenadwy hwn o'u storïau yn taflu goleuni newydd ar y ffordd y câi llawer o fenywod eu gorfodi i fyw. Pan ddaeth Elizabeth ar draws y ffotograffau a'r cofnodion heddlu o'r carcharesau sydd ar adnau yn Archifdy Gorllewin Morgannwg, meddai 'fe gwrdodd ein llygaid, ac roedd yn rhaid i mi olrhain eu storïau'. Trigai'r menywod hyn yn Abertawe er y deuai llawer ohonynt o ledled de Cymru, ond gellid darganfod eu chwirydd mewn unrhyw borthladd mawr neu dref ddiwydiannol arall ym Mhrydain yn y cyfnod hwn.



Lizzie O'Brien Ffotograff yr heddlu

Pauper Children and Poor Law Childhoods in England and Wales 1834-1910 gan Lesley Hulonce



Cymerodd Lesley Hulonce y cam sy'n dod yn fwyfwy cyffredin bellach, sef cyhoeddi ei llyfr ar blant tlawd ei hun, a bu hynny'n benderfyniad doeth. Er nad yw'n llyfr ar hanes menywod, ceir hanes llawer iawn o ferched a menywod ynddo – y plant eu hunain, y metronau, yr athrawesau, yr ymwelwyr, mae eu presenoldeb yn treiddio i bob man.

Mae'r pwnc yn cyd-fynd yn dda â llyfr Elizabeth Belcham (uchod); mae hwn hefyd wedi ei seilio'n bennaf ar gofnodion Abertawe, ond mae wedi ei osod mewn cyd-destun Prydeinig llawer ehangach. Mae'n bosibl iawn y byddai plant merched drwg Abertawe wedi dod yn blant a oedd 'yn eiddo i'r wladwriaeth'. Efallai i rai ohonynt gael eu codi yn y wyrwys hefyd. Yn ôl rhai sylwebyddion roedd y wyrwys yn 'amgylchfyd anfoesol' lle'r oedd hi'n bosibl y câi menywod eu darostwng i'r eithaf.

Un ffordd o osgoi'r dynged hon oedd trwy eu haddysgu ar gyfer gwaith parchus. Bwriad cwricwlwm y wyrwys oedd paratoi'r mwyafrif ar gyfer gwaith domestig, ac roedd yn gyfyng iawn. Yn ôl un sylwebydd roedd rwtin diflas bywyd o'r fath yn anorfod yn

amddifadu eu hanesion o'r cymeriad rhamantus amrywiol hwnnw a geir yn fynych ac sy'n nodweddu bywyd bachgen sy'n gwthio ei hun ymlaen yn y byd, ac felly nid yw eu bywgraffiadau fyth mor ddiddorol nac mor ddyfnadwy.

Yn ddiweddarach yn ystod y 19^{eg} ganrif cafodd mwy o blant eu cartrefu mewn 'cartrefi bwthyn' dan ofal metron. Yn Abertawe yn y Swansea Cottage Homes, a sefydlwyd yn 1877, yr agorwyd y cartref cyntaf o'r fath yng Nghymru. Dechreuodd un fetron, Letitia Lloyd, weithio yng nghartref bwthyn Abertawe ganol y 1880au a bu farw yno, yn 68 oed yn 1909. Er ei bod gan amlaf yn gadarn, byddai'n ymlacio ac yn 'actio'r nyrs gyda phlentyn mewn poen'. Sonia Hulonce hefyd am wyres disgybl (yng nghartrefi ac Ysgol Pontypridd) a ddwedodd fod ei mam-gu wedi disgrifio'r cartrefi 'mor gynnes', nes iddi hi gael sioc pan sylweddolodd mai cangen o'r wyrwys ydoedd.

Câi llawer o blant eu lletya allan dan oruchwyliaeth Byrddau'r Gwarcheidwaid. Âi John Dillwyn Llewelyn, gwarcheidwad yn Abertawe ers yr 1830au, â'i wraig gydag ef ar bron bobl ymweliad arolwg, gan y gwyddai hi am beth i edrych a beth i ofyn ond ni chafwyd ymwelwyr benywaidd yn ffurfiol yn Abertawe tan Fehefin 1910.

Mae hwn yn ychwanegiad defnyddiol iawn at lyfrau hanes menywod yng Nghymru a Lloegr hefyd.

[Pauper Children and Poor Law Childhoods in England and Wales 1834-1910 \(Kindle Edition\)](#)

Cafodd **Jen Wilson**, sefydlydd Treftadaeth Jazz Cymru (gynt Menywod mewn Jazz) ac un o sylfaenwyr AMC/WAW ei phenodi yn ddiweddar yn Athro Ymarfer Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Abertawe. Gwahoddwyd Jen i fynd ag Archif Jazz y Menywod i'r brifysgol rai blynyddoedd yn ôl. Cyhoeddir ei llyfr diweddaraf, *Jazz - the Devil's Music in Wales, Feminists, Fascists, Fashion and some o' that Old Time Religion*, yn ddiweddarach eleni.

